# Archifdy Sir Gâr
# **Polisi Datblygu Casgliadau**
# 2026 – 2030

**Datganiad Cenhadaeth**
Ein nod yw adnabod, casglu a diogelu dogfennau hanesyddol sy'n berthnasol i Gyngor Sir Gaerfyrddin a'i thrigolion a sicrhau eu bod ar gael i unrhyw un sy'n dymuno eu defnyddio.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth am ein gwaith ac i arddangos yr amrywiaeth o ffyrdd y gall holl aelodau'r gymuned ddefnyddio'r gwasanaeth archifau a chofnodion.

**Nodau'r Polisi**
Yn y ddogfen bolisi hon, nodir y Polisi Datblygu Casgliadau ar gyfer Archifdy Sir Gâr ac eglurir y modd yr ydym yn anelu at sicrhau bod holl yr agweddau ar hanes y Sir yn cael eu cynnwys.

Mae'n cefnogi ein Datganiad Cenhadaeth a nodir uchod a dylid ei darllen ochr yn ochr â'n Cynllun ar gyfer y Dyfodol, y Polisi Rheoli Casgliadau, y Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau, Cytundebau gyda'r sawl sy'n adneuo eitemau a dogfennau polisi eraill perthnasol.

**Statws statudol a chyfreithiol**
Archifdy Sir Gâr yw'r gwasanaeth archifau awdurdodedig ar gyfer gwarchodaeth cofnodion swyddogol Cyngor Sir Gaerfyrddin a'r awdurdodau a'i rhagflaenodd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 a Deddf Llywodraeth Leol (Cymru), 1994.

Mae'n 'Leoliad Adnau' o dan y Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 a 1967 ar gyfer nifer o ddosbarthiadau o gofnodion Llywodraeth Ganolog sy'n cael eu cadw'n lleol (Cofnodion Cyhoeddus) e.e. cofnodion sesiynau'r Llysoedd Chwarter, y Llys Ynadon, Y Llys Sirol a'r Crwner.

Mae wedi'i awdurdodi i gaffael archifau drwy dâl, rhodd neu bryniant neu ar gyfer eu cadw ac ar gyfer sicrhau eu bod ar gael o dan Ddeddf (Cofnodion) Llywodraeth Leol, 1962 (c.56). Mae Adran 4 o'r Ddeddf hefyd yn caniatáu dyrannu adnoddau i unigolion sy'n gofalu am archifau o'r fath.

Fe'i cydnabyddir gan Gorff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru fel storfa ar gyfer cofnodion plwyfol o fewn yr ardal a ddiffinnir drwy ei gytundeb gydag Archifdy Sir Gâr.

Fe'i cydnabyddir gan Feistr y Rholiau fel storfa swyddogol ar gyfer cofnodion maenorol a degwm o dan Ddeddf Cyfraith Eiddo, 1922, Deddf Cyfraith Eiddo (fel y'i diwygiwyd), 1924 a Deddf Degwm, 1936.

**Sgôp Casglu**
Mae Archifdy Sir Gâr yn ceisio casglu a chadw deunydd archifol sy'n ymwneud â Sir Gaerfyrddin ac sydd, fe dybir, yn unigryw ac o werth hanesyddol tymor hir fel y penderfynwyd ar hynny gan staff cymwysedig yr archifdy. Mae deunydd addas ar gyfer ei gasglu'n cynnwys:

- Cofnodion Cyngor Sir Gaerfyrddin a'r cyrff a'i rhagflaenodd
- Cofnodion y Cynghorau Tref a Chymuned sydd o fewn ffiniau Sir Gaerfyrddin
- Cofnodion crwneriaid, cyrff iechyd, llysoedd barn ac asiantaethau swyddogol sy'n llunio cofnodion cyhoeddus swyddogol
- Cofnodion am fusnesau, elusennau, sefydliadau, cymdeithasau, clybiau, grwpiau ac unigolion preifat y mae eu gweithgareddau'n cael eu cynnal ar, yn berthnasol i, neu'n gysylltiedig mewn unrhyw fodd arall ag Sir Gaerfyrddin
- Cofnodion yr Eglwys yng Nghymru a gesglir dan delerau Cytundeb Cofnodion Plwyfol
- Cofnodion unrhyw enwebiadau crefydd eraill gan gynnwys unrhyw eglwysi a chapeli Anghydffurfiol (gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i Fethodist, Crynwyr a Chynulleidfaol), yr Eglwys Gatholig Rufeinig a chofnodiadau unrhyw ffydd arall sy'n cynnal eu gweithgareddau yn Sir Gaerfyrddin neu sy'n gysylltiedig â hi.
- Cofnodion sy'n cael eu creu gan bob math o gyrff o fewn ffiniau Sir Gaerfyrddin

**Fformat a chyfrwng**
Mae Archifdy Sir Gâr yn derbyn archifau, waeth beth yw eu hoed, ar unrhyw ddiwyg yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i bapur, memrwn, casetiau clywedol a fideo, microffilm/fiche, ffotograffau, negatifau plât gwydr a sleidiau llusern a fformatau digidol yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i gyfryngau cludadwy megis DVD/CD Rom, disgiau hyblyg a chofbinnau.

Caiff y broses o gaffael cofnodion digidol ei rheoli drwy ein Polisi Cadwraeth Ddigidol.

**Cyfyngiadau'r polisi casglu**
Bydd Archifdy Sir Gâr ond yn casglu ac yn cadw deunydd sydd, fe dybir, yn unigryw ac o werth hanesyddol tymor hir fel y penderfynir ar hynny gan staff archifau cymwys a chan gyfeirio at ein Canllawiau Gwerthuso.

Ni fydd Archifdy Sir Gâr yn casglu deunydd sydd y tu allan i'w ardal gasglu ddaearyddol fel y'i diffinnir yn y "Sgôp Casglu" uchod, ac eithrio lle mae'r deunydd yn ychwanegu at y casgliadau y mae eisoes yn gofalu amdanynt neu mewn amgylchiadau eithriadol, e.e. dymuniad diamwys y perchennog ac mewn ymgynghoriad gydag unrhyw ystorfa berthnasol arall. Yn ychwanegol at hyn, nid yw Archifdy Sir Gâr yn chwilio am:

- Gofnodiadau sy'n ymwneud ag ardaloedd daearyddol y tu allan i Sir Gaerfyrddin ac eithrio mewn amgylchiadau lle gall cofnodion o'r fath weithiau ffurfio rhan hanfodol bwysig o gasgliad

- Deunydd wedi ei ddyblygu oni bai yr ystyrir bod cadw copïau sbâr o ddeunydd nad yw'n unigryw yn fanteisiol mewn achosion penodol

- Llungopïau a deunydd wedi ei gopïo

- Deunydd sydd wedi ei argraffu neu ei gyhoeddi oni bai ei fod yn rhan hanfodol bwysig o archif neu'n cynnwys newidiadau sylweddol i lawysgrif

- Arteffactau, eitemau tri dimensiwn neu waith celf. Caiff deunydd o'r fath ei gyfeirio fel arfer i Wasanaeth Amgueddfa

- Recordiadau ffilm. Fel arfer, caiff y rhain eu cyfeirio at Archif Sgrîn a Sain Cenedlaethol Cymru

**Datblygu**
Rydym yn datblygu ein casgliadau fel a ganlyn:

- Drwy gynnal arolygon rheolaidd o'n casgliadau er mwyn adnabod bylchau yn yr hyn yr ydym yn ei gadw

- Cysylltu â grwpiau neu sefydliadau sy'n cynrychioli meysydd lle gwyddys bod ein casgliadau'n wan neu sy'n cael eu tangynrychioli yn ein casgliadau

- Cadw mewn cysylltiad gyda'r sawl sydd eisoes wedi adneuo eitemau

- Sicrhau bod cofnodion cyhoeddus, archifau Cyngor a phlwyfi yn parhau i gael eu hadneuo yn unol â'n hymrwymiadau statudol

**Caffael**
Mae'n well gan Archifdy Sir Gâr dderbyn casgliadau fel rhoddion neu gymynroddion. Derbynnir cofnodion ar fenthyg yn amodol ar gytuno ar y Telerau Adneuo. Mae'r gronfa ar gyfer prynu eitemau'n fychan iawn a bydd ond yn cael ei gwario ar ddogfennau o ddiddordeb eithriadol o safbwynt hanes yr ardal ac a fyddai, fel arall, yn cael eu colli i ymchwilwyr lleol.

Yn ogystal, derbynnir cofnodion drwy drosglwyddiad uniongyrchol o Gyngor Sir Gaerfyrddin.

**Mynediad**
Derbynnir archifau ar y rhagdybiaeth fod yr adneuwr yn fodlon iddynt fod ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt o fewn cyfnod rhesymol o amser (ac yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth berthnasol). Bydd Archifdy Sir Gâr, ar ôl ei chatalogio,  yn rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw eitem newydd y mae'n ei derbyn ac yn sôn am unrhyw gyfyngiadau o ran mynediad. Bydd catalogau ar gael ar-lein a byddant yn cael eu hanfon at adneuwyr a'r Gofrestr Archifau Genedlaethol.

**Cael gwared ar Gasgliadau**
Caiff casgliadau eu dewis ar gyfer eu cadwraeth barhaol yn seiliedig ar werthusiad trwyadl gan staff cymwys yn erbyn meini prawf ein Polisi Casgliadau. Os nad Archifdy Sir Gâr yw'r ystorfa fwyaf addas ar gyfer y deunydd a gynigir i ni, byddwn yn cynghori darpar adneuwyr am ystorfa fwy priodol ar gyfer y deunydd y maent eisiau ei adneuo.

Bydd deunydd nad oes arnom ei angen yn cael ei gynnig yn ôl i'r adneuwr yn y lle cyntaf neu byddir yn cael gwared arno yn unol â thelerau'r Cytundeb Adneuo.

**Adolygu**
Ysgrifennwyd y polisi hwn ym mis Ionawr 2026. Bydd yn cael ei adolygu yn 2030, neu'n gynharach os bydd angen gwneud hynny.